CYNGOR CYMUNED PISTYLL
COFNODION CYFARFOD MISOL

DYDDIAD	**Nos Fawrth – 8fed o Fawrth, 2022**
AMSER	**7.00 y.h.**
LLEOLIAD	**Tabor, Llithfaen.**
CADEIRYDD	**Ynyr Ellis**

1.	**CROESO**
	Croesawodd Ynyr Ellis **(YE)** y Cadeirydd bawb I'r cyfarfod ac ymddiheurodd am fethu'r cyfarfod fis diwethaf. Yn bresennol roedd Lisbeth James **(LJ),** Gwilym Williams **(GW),** Griffith Jones **(GJ),** Sianelen Pleming **(SP)** Cyng. Aled Wyn Jones **(AWJ)** a'r clerc Gillian Thomas **(GT)**
2.	**YMDDIHEURIADAU**
	Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Olwen Roberts **(OR),** Emlyn Hughes **(EH),** William Jones **(WJ),** Sara Williams **(SW) a** John Owen **(JO)**
3.	**COFNODION CYFARFOD CHWEFROR 2022**
	a) <u>CYFLWYNO A MABWYSIADU</u> Cynigwyd y cofnodion yn gywir gan **b) <u>MATERION YN CODI</u>** **I. BIN BAW CI PISTYLL** Lleolwyd y bin baw ci ym Mhistyll ar dreial yn dilyn cais gan Swyddog y Cyngor I ofalu am iechyd a diogelwch y Swyddog Casglu, erbyn hyn mae'r Swyddog Casglu wedi dod 'nôl yn argymell ei ail leoli oherwydd mae sbwriel sydd yn cael ei osod ynddo. Cytunodd GJ ei ail leoli. **II. LLECHI TO'R GYSGODFA** Adroddodd y clerc ei bod wedi trafod y mater ymhellach gyda OR **III. SW – BAW CI** Cwyn am faw ci yn rheolaidd ar y llwybr gyferbyn a thŷ SW a rhwng Tabor a'r Iard Glo. Derbyniwyd lluniau gan SW ar ôl y cyfarfod. Y clerc wedi gyrru ymlaen a thrafod y mater gyda swyddog gorfodaeth oedd wedi cytuno gwneud asesiad pellach. **IV. PARCIO GYFERBYN A MOREIA TERRACE** Y gwyn wedi ei gyrru i'r Cyngor Sir ond heb dderbyn adborth hyd yn hyn **V. LLECYN GWAIR GYFERBYN A'R CAPEL YN RHEDEG AT Y TOILED, LLITHFAEN** Adroddodd y Clerc ei bod wedi gyrru'r cwyn am gyflwr y gwair a chais gan yr aelodau i'w darmacio i'r Cyngor Sir. Nodwyd bod y broblem fwyaf yn gorwedd gyferbyn a Delfryn.

LLOFNODWYD ..... DYDDIAD .....

	VI. TWMPATHAU Nid oedd ymateb i gais y Cyngor I ymestyn y twmpathau nac eu cais am dwmpathau ychwanegol wedi ei dderbyn. Cytunodd yr aelodau bod y mater yn cael ei drafod ers rhai misoedd heb adborth. Y clerc i adrodd cwyn I Dafydd Gibbard a gofyn iddo ef ddilyn y mater
4.	**DATGAN DIDDORDEB**
	Dim
5.	**DIWEDDARIADAU ASEDAU**
	Ni adroddwyd unrhyw broblemau
6.	**CEISIADAU CYNLLUNIO**
	Ni dderbyniwyd unrhyw adborth parthed cwyn gorfodaeth G21/0121 - Gwelfor, 2, Pistyll Terrace, Pistyll, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6LS. Roedd cais am wybodaeth bellach erbyn hyn wedi ei gyrru i'r adran Gorfodaeth bedair gwaith. - y clerc yn hytrach i yrru yn uniongyrchol i Aneurin Mon Parry.
7.	**WILLIAM ADAMS – BAND EANG Y WARD**
	Derbyniwyd ymddiheuriadau gan William Adams mlaen llaw'r cyfarfod gydag esboniad bod y project wedi rhedeg i drafferthion felly roedd yn gorfod gohirio trafodaethau pellach tan y dyfodol agos.
8.	**AELODAETH UN LLAIS CYMRU**
	Cynigiodd GJ ac eiliodd GW i barhau gydag aelodaeth Un Llais Cymru ar gost o £102.00 - y clerc i weithredu
9.	**Y MAES PARCIO, NANT**
	Nid oedd diweddariadau pellach i'w gynnig hyd yn hyn.
10.	**Y GANOLFAN**
	Rhannodd SP wybodaeth wedi ei dderbyn gan Lowri Cadwaladr yn cadarnhau nid oes grantiau ar gael drwy'r Cyngor Sir ar gyfer y gwaith sydd eu hangen yn y Ganolfan. Adroddodd i berwyl hyn dim ond dau opsiwn sydd ar ôl i'w drafod yng nghyfarfod Pwyllgor y Ganolfan nos fory: **1 – BENTHYCIAD TYMOR HIR GAN Y CYNGOR SIR AM SWM HYD AT £50,000.00** Bydd hyn yn galluogi cynnal y gwaith sydd angen sylw brys ac yn gadael ffenest i wneud ceisiadau am grantiau eraill er mwyn sicrhau'r £100,00.000 sydd ei angen i wneud y gwaith yn gyfan. Cyfrifoldeb y Cyngor Cymuned sef perchnogion y les gyfredol fydd gwneud y cais am fenthyciad. Ni dderbyniwyd yr wybodaeth yma yn ffafriol gan yr aelodau gyda GW yn argymell nad oedd benthyca i gynnal gwaith ar les yn gwneud synnwyr. **2 - TROSGLWYDDO'R GANOLFAN YN ÔL I'R CYNGOR SIR.** Nodwyd os bydd y Pwyllgor yn penderfynu dilyn y trywydd hwn bydd rhaid cynnal cyfarfod cyhoeddus gyda'r trigolion, y Cyngor Sir ac aelodau'r Cyngor Cymuned.

	Adroddodd SP ei bod wedi ceisio cynnal cyfarfod gyda'r Adran Gyfreithiol a'r Adran Stadau ers mis Awst diwethaf. Cytunwyd bydd rhaid gosod erthygl yn y papur os na fydd y Cyngor Sir yn fodlon mynychu'r cyfarfod cyhoeddus. Cytunwyd bydd aelod Pwyllgor y Ganolfan yn Cadeirio'r cyfarfod.
11.	**CEISIADAU AM NAWDD**
	Cysidrwyd yr holl geisiadau am nawdd, cytunwyd cefnogi'r mudiadau canlynol: • **LLYTHYR LLITHFAEN –** Cynigiodd GJ eu cefnogi am swm £250.00 eiliodd LJ a chytunodd pawb • **HAFOD CEIRI –** Cynigiodd GW eu cefnogi am swm o £1,000.00, eiliodd GJ a chytunodd pawb. • **FFERMWYR IFANC GODRER EIFL –** Cynigiodd GJ eu cefnogi am swm o £200.00 eiliodd GW a chytunodd pawb • **PWYLLGOR CAE CHWARAE-** Cynigiodd GW eu cefnogi am swm o £1,000.00 gyda GJ yn eilio a phawb yn cytuno • **CYLCH MEITHRIN PENTREF UCHAF-** Cynigiodd LJ eu cefnogi am swm o £200.00 eiliodd GJ a chytunodd pawb • **EISTEDDFOD GENEDLAETHOL -** Cynigiodd GJ eu cefnogi am swm o £500 gyda GW yn eilio a phawb yn cytuno
12.	**CYFLOG Y CLERC**
	Cytunwyd i'w drafod fis nesaf gan gychwyn y cyfarfod yng nghynt
13.	**MATERION LLEOL**
	a) **SP - ARWYDDION Y GROESFFORDD GER Y SIOP** Adroddodd SP ei phryderon am ddiffyg arwyddion yn hysbysebu modurwyr eu bod ar fin cyrraedd croesffordd ger y siop yn Llithfaen. Nodwyd nid oes arwydd o'r un cyfeiriad - Y clerc i ail wneud y cais i'r Cyngor Sir **b)** **GJ - GWEUDUR AR Y LON GER GIÂT LLITHFAEN FAWR** Adroddodd GJ am weudur ar y llawr wrth y giât yn dilyn damwain - y clerc i adrodd i'r Cyngor Sir **c)** **ETHOLIADAU** Nodwyd bydd y clerc yn eu derbyn drwy bost gan y Cyngor Sir yfory ac yn eu gyrru blaen
14.	**GOHEBIAETH A GWYBODAETH**
15.	**a) AWYR DYWYLL** **b) GWRANDAWIAD CYHOEDDUS 9FED O FAWRTH - COMISIWN FFINIAU CYMRU** **c) RALI GOFFA MERFYN HUGHES LLYN 19 O FAWRTH 2022** Croesawyd y wybodaeth – ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau i'r clerc weithredu

16.	**CYLLID**

CYSONIAD

Cymeradwywyd y Cysoniad a Phroffid a Cholled gyda'r aelodau'n cytuno ei chywirdeb

CYFRIF CYFREDOL Mawrth 2021 (Yn cynnwys cronfa'r Deffib)		**£**	**5,520.78**
CYFRIF CYNILO Mawrth 2021	**+**	**£**	**2,660.73**
GWARGED 2021/22	**+**	**£**	**3,388.76**
CRONFA'R CYNGOR =		**£**	**9,550.27**

I GYTUNO A DATGANIADAU'R BANC

CYFRIF CYFREDOL **31/02/2022**		£	10,331.01
CYFRIF CADW **06/03/2022**	**+**	£	2,661.01
	=		**£ 12,992.02**

- **LLAI SIECIAU I'W CYMERADWYO**

-	Cyflog a threuliau clerc	**212230**	£	183.95
-	Hafod Ceiri - Llythyr Llithfaen	**201231**	£	250.00
-	Hafod Ceiri	**201232**	£	1,000.00
-	Ffermwyr Ifanc Godrer Eifl	**201233**	£	200.00
-	Pwyllgor y Cae Chwarae	**201234**	£	1,000.00
-	Cylch Meithrin Pentrf Uchaf	**201235**	£	200.00
-	Eisteddfod Genedlaethol	**201236**	£	500.00
	Un Llais Cymru	**201237**	£	102.00
-	Bank Charges		£	5.80
		=	**£**	**3,441.75**

=	**SYDD YN CYTUNO GYDA CRONFA'R CYNGOR =**	**£**	**9,550.27**
-	**LLAI BALANS CRONFA'R DIFFIBLWR:**	**£**	**374.23**
=	**CYFANSWM CYWIR Y CYFRIFON FELLY**	**£**	**9,176.04**

17.	**CYFARFOD NESAF Y CYNGOR**
	Cyfarfod i gychwyn am 6.30 yng Nghapel Tabor, Llithfaen ar y 12fed o Ebrill 2022